# HUGHES, EVAN ('Hughes Fawr '; bu farw 1800), curad ac awdur

**Enw:** Evan Hughes
**Ffugenw:** Hughes Fawr
**Dyddiad marw:** 1800
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** curad ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Brodor o Llangeitho ydoedd, medd rhai. Bu'n gurad yn Llaniestyn, Llandegwning, Penllech yn Ll n, 1762-4, a Llanfihangel y Pennant, Eifionydd, 1772-9. Arferai bregethu yn y mynwentydd yn y lleoedd hyn gan fod nifer y rhai a ddeuai i'w wrando yn fwy nag a allai fynd i mewn i'r eglwysi. Yr oedd yn bleidiol iawn i'r ysgolion cylchynol a gynhelid yn Ll n ac Eifionydd, ac ysgrifennodd at Madam (Bridget) Bevan yn 1773 yn dwyn tystiolaeth i'w llwyddiant a gofyn am estyniad tymor yr ysgol yn Llanfihangel y Pennant. Gallai ateb cwestiynau esgob Bangor ar ei ymweliad yn 1776 a dywedyd bod 70 yn cymuno bob mis yn Llanfihangel a thua 200 y Pasg. Yr oedd yn gyfeillgar â Robert Jones, Rhoslan. Yn 1779 symudodd i fod yn gurad yn Ysbyty Ifan, a thra bu yno pregethai yn aml yng nghartrefi Methodistiaid. Tua'r flwyddyn 1783 aeth i Drawsfynydd yn gurad ac, ar 23 Mehefin 1792, i Llanuwchllyn, lle y bu farw tua chanol mis Mai 1800. Cyhoeddodd *Duwdod Crist*, 1777, a *Rhai Hymnau Newyddion o Fawl i'r Oen*, 1783. Ceir rhai emynau o'i waith mewn llawysgrifau (e.e. yn rhai o ysgriflyfrau ' Dafydd Sion Siams ').

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908), i, 384, 404; ii, 403, 405, 409

*Cymru (O.M.E.)*, xii, 251-4

*Llais Rhyddid*, 1918, 133-4

*Yr Haul*, 1867

*Welch piety, or, A farther account of the circulating Welch charity schools ... to which are annexed testimonials relating to the masters and scholars of the said schools; in a letter to a friend* (1742-60), 1773-4

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733025

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu